

Loteri Bywyd



① *Dewch i nabod y Teulu Brenhinol gyda'r ffeithiau hyn*

- A wyddech mai cyfenw pob aelod agos o'r teulu brenhinol yw Mountbatten-Windsor. Ond os byddwch chi byth yn cwrdd â'r frenhines bydd 'Eich Mawrhydi' yn gwneud y tro!
- Mae amgueddfa Madame Tussauds wedi arddangos 23 model cŵyr o'r Frenhines mor belled.
- Mae'r Frenhines yn dathlu ei phenblwydd ddwywaith bob blwyddyn! Ei phenblwydd go iawn yw Ebrill 26 ond mae hi hefyd yn cynnal dathliad arall ym mis Mai neu fis Mehefin.
- Yn ôl y gyfraith, nid oes yn rhaid i'r frenhines basio ei phrawf gyrru a chael trwydded yrru i allu bod tu ôl i olwyn car. Does dim angen pasbort arni hi chwaith!
- Pan briododd William a Kate yn 2011, fe dderbynion nhw 60,000 o lythyrau gan ffans ac fe wnaethon nhw yn siŵr y cafodd pob un llythyr ei ateb. Mae hynny'n llawer o waith ysgrifennu!
- Mae Kate yn hoff o liwio llyfrau lliwio o dro i dro er mwyn ymlacio!

- Mae'r Frenhines yn gallu siarad Ffrangeg yn rhugl.
- Derbyniodd y frenhines anrheg o gi Corgi, sy'n gi Cymreig, pan oedd hi'n dathlu ei phen-blwydd yn 18 mlwydd oed. Enw'r ci cyntaf hwnnw oedd Susan! Mae hi wedi gwirioni ar y cŵn bach Cymreig byth ers hynny.
- Mae'r tywysog Siarl wedi gwneud mwy nag un araith yn Gymraeg dros y blynyddoedd.
- Mae'r Frenhines wedi ymweld â 117 o wledydd. Cryn dipyn o deithio!
- Mae aelodau o'r teulu Brenhinol yn cefnogi dros 3,000 o elusennau o bob math.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
Mawrhydi	y teitl a roddir i aelodau o deuluoedd brehinol	Highness
cŵyr	yr hyn a ddefnyddir i wneud canwyllau a modeli tebyg i rai mewn amgueddfeydd fel <i>Madame Tussauds</i>	wax
y gyfraith	y rheolau a wneir gan wleidyddion i gadw trefn	the law
dyletswyddau	y tasgau sy'n rhan o swydd neu rôl swyddogol person	duties
y gymanwlad	52 o wledydd a fu'n rhan o ymerodraeth Prydain	commonwealth



Fy Mrawd Bach

Mae fy mrawd bach mor swnllyd, yn cadw twrw drwy'r tŷ,
Mae e byth â hefyd yn cadw i darfu arna' i.

Wrth wneud fy ngwaith cartref, rhaid wrth dawelwch pur,
Ond yn sydyn bydd `na sgrech a'r sgrech yn para'n hir!

Ac wedi i fi orffen fy ngwaith yn barod ar gyfer Miss Rhys
Mae'r babi blêr yn ei rwygo'n rhacs. Aaa! Nawr mae brys!

Mae gen i frawd bach, ac mae ei gewynnau yn drewi,
A phan mae'n cropian dros yr iPad mae'r sgrin yn rhewi!

Mae gen i frawd bach, ac am reswm nad alla' i ddim dallt,
Mae'r babi bach gwyllt wrth ei fodd yn tynnu fy ngwallt!

Er gwaetha'r drewdod a'r sgrechian, er gwaethaf hyn oll,
Heb gwmni fy mrawd bach annwyl, mi fyddwn i ar goll.

– Aneirin Karadog

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
cewynnau	yr hyn mae babis yn ei wisgo cyn gallu defnyddio'r tŷ bach	nappies



1. Lanswyd y Loteri Cenedlaethol ym Mhrydain ym 1994
2. Ers ei sefydlu, mae'r loteri wedi creu 3600 o filiynyddion ym Mhrydain
3. Dros ugain mlynedd cyntaf y loteri, rhannwyd 53 biliwn o bunnau mewn enillion
4. Mae 85% o'r enillwyr yn dewis aros yn ddiennw.
5. Ar gyfartaledd, mae enillwyr y loteri yn prynu 4.5 car newydd ar gyfer eu hunain, eu teulu neu ffrindiau ac mae 10% o enillwyr yn prynu dros ddeg car.
6. Mae'r rhan fwyaf o enillwyr yn symud tŷ ond mae 65% o enillwyr yn prynu tŷ sydd o fewn 5 milltir i'w cartref gwreiddiol
7. Mae ein siawns o ennill y jacpot ar y loteri Prydeinig, gydag un tocyn, oddeutu 1 mewn 45 miliwn. Er bod y siawns o ennill y loteri yn brin, mae un teulu o ganolbarth Lloegr wedi ennill y jacpot 3 gwaith!
8. Mae'n debyg fod y Frenhines wedi ennill 10 punt ar y loteri cyntaf un ym 1994
9. Sefydlwyd loteri Cymru eleni gyda'r bwriad o gefnogi elusennau yng Nghymru. Gellir ennill hyd at 25,000 o bunnau.
10. Mae gan wahanol wledydd eu loteriau eu hunain a'r jacpot mwyaf i rywun ei ennill erioed oedd 590.5 miliwn o ddoleri yn America.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
ar gyfartaledd	y ffigwr canolig a geir o gymryd y ffigwr uchaf a'r ffigwr isaf	on average
elusennau	sefydliadau sy'n codi arian dros achosion da	charities



Darn Gwybodaeth

Mae rhai plant yn y byd yn cael eu geni i deuluoedd cyfoethog iawn, ond mae'r rhan fwyaf o blant y byd yn byw mewn tloedi. Mae'r gwahaniaeth rhwng cyfoeth a thloedi yn broblem ym mhob gwlad yn y byd, ond mae rhai gwledydd ble mae tloedi yn fwy o broblem, ac mae hyn yn cael effaith mawr ar blant.

Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi datblygu set o hawliau plant sydd yn ceisio sicrhau fod pob plentyn yn y byd yn cael yr un hawliau, beth bynnag fo'u cefndir.

Enw'r ddogfen bwysig hon ydy 'Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn'.

Datblygwyd y Confensiwn ym 1989 ac mae bron pob gwlad yn y byd wedi arwyddo'r Confensiwn.

Mae'r Confensiwn yn cydnabod fod rhai gwledydd yn dlotach na'i gilydd ac felly'n nodi y dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i sicrhau'r hawliau hyn ar gyfer holl blant y byd.

Dyma rai o'r hawliau a restrir yn Y Confensiwn:

- Erthygl 3:** Dylai oedolion wneud yr hyn sydd orau i ti.
- Erthygl 6:** Mae gen ti hawl i fyw.
- Erthygl 14:** Mae gen ti hawl i feddwl beth fynni di a dilyn pa grefydd bynnag rwyd ti eisiau.
- Erthygl 15:** Mae gen ti hawl i wneud ffrindiau.
- Erthygl 17:** Mae gen ti hawl i gasglu gwybodaeth o'r radio, papurau newydd, y teledu, llyfrau, ac yn y blaen, o unrhyw le yn y byd.
- Erthygl 19:** Ddylai neb dy frifo mewn unrhyw ffordd.
- Erthygl 24:** Mae gen ti hawl i iechyd da.
- Erthygl 27:** Mae gen ti hawl i fwyd, dillad a lle i fyw.
- Erthygl 28:** Mae gen ti hawl i addysg.
- Erthygl 30:** Mae gen ti hawl i fwynhau dy ddiwylliant dy hun, dilyn dy grefydd dy hun a defnyddio dy iaith dy hun.
- Erthygl 31:** Mae gen ti hawl i chwarae.
- Erthygl 37:** Ddylet ti ddim cael dy roi yn y carchar.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
Y Cenhedloedd Unedig	y corff sy'n cadw trefn rhwng gwledydd y byd	United Nations
confensiwn	cyfarfod i drafod materion pwysig sydd wedyn yn cael eu rhoi ar bapur i eraill gael eu dilyn	convention
hawl	yr hyn y gall unigolyn ddisgwyl y mae'n cael ei wneud mewn bywyd	right



Mae cyfres deithio y 'Lonely Planet' wedi enwi Gogledd Cymru fel y bedwaredd ardal orau yn y byd i ymweld â hi yn 2017, diolch i'n hamgylchedd naturiol rhyfeddol ac atyniadau arbennig i dwristiaid fel y weiren wib yn Zip World, Bethesda a Surf Snowdonia yn Nolgarrog, Conwy. Mae Lonely Planet hefyd yn nodi fod Gogledd Cymru yn cynnig bwyd da, cyfleoedd i wylïo'r sêr a gwledd o dreftadaeth. Gogledd Cymru yw'r unig ran o'r Deyrnas Unedig sydd wedi ei henwi ar restr y Lonely Planet.

Ar y llaw arall, ym 2015, cyhoeddodd 'think tank' yr 'Intergenerational Foundation' (IF) fod Cymru, ac yn enwedig Gogledd Cymru, yn un o'r llefydd gwaethaf yn y Deyrnas Unedig i bobl ifanc fyw. Mae IF yn nodi diffyg gwaith a chyfleoedd, cyflogau isel a methu prynu neu rentu tŷ fel rhesymau pam fod pethau'n anodd i bobl ifanc yng Nghymru.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
amgylchedd	y byd sydd yn uniongyrchol o'n cwmpas	environment
cyflogau	yr arian a delir i bobl am wneud gwaith	wages

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
braint	cyfle sydd ond yn dod i rai unigolion mewn bywyd	privilege
Prif Weinidog	y person sy'n arwain llywodraeth	Prime Minister



Gwylwch y clipiau fideo hyn i weld enghreifftiau o bobl sydd wedi cael llwyddiant oherwydd eu doniau. Maent yn dod o deuluoedd sydd yn gwneud gwaith yn yr un maes â nhw, ond maen nhw hefyd yn bobl sydd wedi profi llwyddiant am eu bod nhw wedi cyfuno eu dawn naturiol gyda llawer o waith caled er mwyn cyrraedd y brig.

Charlie Lovell Jones

www.gweiddi.org/rhifynnau/rhifyn-46-loteri-bywyd/doniau-naturiol/

Josh Griffiths

www.gweiddi.org/rhifynnau/rhifyn-46-loteri-bywyd/doniau-naturiol/

Elin Fflur

www.gweiddi.org/rhifynnau/rhifyn-46-loteri-bywyd/doniau-naturiol/



Helo o Siapan!

Anfonwyd: Dydd Mercher, 05 Gorffennaf 2017 02:33

Oddi wrth: meleri2017@gweiddi.cymru

At: cats_15@gweiddi.cymru

Heia Cats! Sut wyt ti'n cadw? Rwyf wir yn edrych mlaen i dy weld di a'r ffrindiau eraill o'r pentref pan ddof fi adre mewn 3 mis.

Roedd daeargryn arall yma ddoe, 3.9 ar y raddfa Richter. Y raddfa Richter yw'r ffordd o fesur cryfder daeargryn o 0-10, ac mae gwyddonwyr yn defnyddio teclyn o'r enw 'Seismometer' i'w mesur. Mae daeargrynfeydd sy'n mesur 1 neu 2 ar y raddfa Richter yn gyffredin iawn ac yn digwydd bob dydd mewn llefydd fel San Francisco yn America. Nid yw pobl yn teimlo'r rhain fel arfer, ond mae gwyddonwyr yn gallu eu mesur ar y seismometer. Mae daeargrynfeydd sydd yn mesur 7, 8 neu 9 yn ddinistriol dros ben. Mae gwledydd tlotach fel arfer yn cael eu taro'n waeth gan ddaeargrynfeydd mawr gan nad oes ganddynt y dechnoleg na'r adnoddau i fonitro, darogan ac ymateb i ddaeargrynfeydd. Oeddet ti'n gwybod fod daeargryn 7 ar y raddfa Richter wedi lladd 316,000 o

bobl yn Haiti yn 2010? Achosodd y daeargryn yma 13.2 biliwn o ddoleri o ddinistr. Gan fod Haiti yn wlad dlawd iawn, mae hi wedi bod yn arbennig o anodd i'r wlad adfer ar ôl y ddaeargryn hon.

Mae Siapan wrth gwrs yn wlad hynod gyfoethog o'i chymharu â Haiti. Felly, er mai Siapan yw'r wlad sy'n wynebu'r peryglon mwyaf o ddaeargrynfeydd, hi hefyd sydd â'r system rybuddio orau yn y byd, a gall hyn achub miloedd o fywydau. Maent hefyd yn gallu defnyddio deunyddiau a thechnegau adeiladu sydd i fod i wrthsefyll effeithiau daeargrynfeydd.

Rwy'n dechrau dod i arfer â'r holl ysgwyd erbyn hyn ond maen nhw'n dal i fy wneud i'n nerfus. Tan iddo basio, nid oes modd gwybod pa mor wael fydd ei effaith, felly mae'n rhyddhad mawr ar ddiwedd pob un! Mae'n debyg fod risg uchel o ddaeargryn anferth ar 8 neu 9 ar y raddfa Richter yn ninas Tokyo am nad oes un mor fawr â hynny wedi bod ers 1923.

Pan gyrhaeddais i yma ar ddechrau fy mlwyddyn gap, ces fynd i'r 'Tokyo Rinkai Disaster Prevention Park' i ddysgu am hanes daeargrynfeydd yn Siapan a sut orau i oroesi un pe bai'n digwydd taro. Dysgais fod pob adeilad yn y ddinas yn cael ei adeiladu yn bwrpasol i allu gwrthsefyll daeargrynfeydd. Y profiad gorau a'r mwyaf brawychus o'r ymweliad oedd mynd mewn i fodel o gartref lle cefais brofi'r stafell yn ysgwyd fel petai daeargryn 8 ar y raddfa Richter. Galla' i ddweud un peth wrtho ti, os taw daeargryn o radd 7 Richter yw e, byddi di'n sicr o'i deimlo! Yn Siapan, mae pawb yn dysgu yn ifanc iawn sut i ymddwyn mewn argyfwng. Felly, os byddi di byth yn dod i Siapan ac yn clywed y larwm Daeargryn gwna'r canlynol:

- Canfod lloches o dan rywbeth cadarn fel bwrdd.
- Os wyt ti mewn adeilad, paid â rhuthro allan gan fod llai o risg o'r adeilad yn dymchwel arnat nac sydd yna o gael dy daro gan wydr, neu bethau eraill all ddisgyn lawr i'r strydoedd.
- Diffodda'r nwy ac unrhyw offer trydan. Yn naeargryn 1923 yn Tokyo, lladdwyd 142,800. Tân laddodd y mwyafrif gan fod y ddaeargryn wedi taro yn ystod amser cinio lle roedd pobol yn eu ceginau.

- Agora ddrws i baratoi ar gyfer gadael yr adeilad. Mae fframiau drysau a ffenestri yn gallu cael eu difrodi gan olygu fod agor drysau a ffenestri yn gallu bod yn anodd wedi hynny.
- Os wyt ti tu allan, y pergyll mwyaf yw pethau'n syrthio arnat, felly os yn bosib, ceisia loches mewn adeilad cyfagos, os na, rho dy fag dros dy ben!
- Y rheol bwysicaf i'w chofio yw dilyn cyfarwyddiau. Mae staff ym mhobman wedi eu hyfforddi i ddelio â daeargryn.

Reit, felly dyna ti yn barod ar gyfer pob argyfwng!

Mae fy ngwers Siapaneg yn cychwyn mewn awr felly well i mi fynd i baratoi. Yna byddwn ni'n mynd i fwyty Sushi i gael swper, ffili aros!

Edrych mlaen at glywed wrthot ti,

Mel xxx

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
daeargrynfeydd	pan mae'r ddaear yn crynu oherwydd fod platiau tectonig o dan y môr yn symud.	earthquakes
gwrthsefyll	gallu parhau i sefyll er gwaethaf grymoedd mawr	withstand
dymchwel	pan fo rhywbeth o faint mawr yn disgyn i'r llawr	collapse



📄 Darn Gwybodaeth

Y person sy'n dal y record byd am fod y talaf yn y byd yw gŵr o'r enw Robert Pershing Wadlow, o Illinois yn Unol Daleithiau America.

Roedd yn mesur 272 cm, neu 8 troedfedd, 11.1 modfedd. Oherwydd ei fod yn byw gyda chyflwr oedd yn gwneud iddo dyfu yn anarferol o gyflym a thal o gymharu â phobl gyffredin, roedd yn dioddef gyda'i iechyd. Enw'r cyflwr yw 'cawraeth'. Cafodd Robert Wadlow ei eni ym 1918 a bu farw yn ifanc iawn oherwydd ei gyflwr, yn 22 mlwydd oed, ym 1940. Am gyfnod bu'n ymddangos mewn syrcais ac yn ddiweddarach aeth ar ei liwt ei hun i wneud ymddangosiadau cyhoeddus lle roedd pobol yn tyrru i ryfeddu ar ei daldra. Mae'n debyg fod ganddo gryfder anarferol yn sgil ei faint ac y gallai felly godi pethau cymharol drwm neu blygu metel, er enghraifft.

Dyma lun ohono yn sefyll gyda'i dad Harold Franklin Wadlow oedd yn mesur 5 troedfedd ac 11 modfedd o daldra.





📌 *Darn Gwybodaeth*

Daeth caethwasiaeth i ben yn America ym 1865, ond yn anffodus roedd rhaid i Americanwyr croenddu ddisgwyl canrif arall i ennill hawliau cyfartal. Yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, roedd mudiad hiliol o'r enw'r 'Ku Klux Klan' yn ymosod ar ac yn curo pobl ddu. Roedd pobl ddu hefyd yn cael eu harwahanu yn gyhoeddus, oedd yn golygu na allent ddefnyddio'r un cyfleusterau â phobl wyn, e.e ysgolion, a pharciau.

Yn ystod y 1950au a'r 1960au, daeth y Mudiad Hawliau Sifil i fodolaeth o dan arweiniad dyn arbennig iawn – Dr Martin Luther King. Roedd Dr King a'i ddilynwyr yn benderfynol o herio'r syniad fod pobl wyn yn well na phobl ddu, ac ar ôl brwydro'n galed iawn, fe ddechreuodd pethau newid:

- Ym 1954, ennillodd Rev Brown yr hawl i anfon ei blentyn i ysgol i blant gwyn
- Ym 1955, gwrthododd Rosa Parks roi ei sedd bws i berson gwyn
- Yn 1957, aeth naw disgybl du i ysgol i bobl groenwyn yn Little Rock, Arkansas ond roedd angen gwarchodaeth filwrol arnynt.
- Ym 1963, gorymdeithiodd 250,000 o bobl i'r 'Lincoln Memorial' i wrando ar araith enwog Dr Martin Luther King, 'I Have a Dream...'

Erbyn y 1960au, roedd gan Americanwyr croenddu fwy o hawliau cyfreithiol:

- Rhoddodd y Ddeddf Hawliau Sifil (1964) derfyn ar arwahanu cyhoeddus
- Rhoddodd y Ddeddf Hawliau Pleidleisio (1965) yr hawl i bob Americanwr(aig) du bleidleisio
- Ym 1968, sicraodd y Ddeddf Tai Teg nad oedd modd gwahaniaethu ar sail lliw croen yn y maes tai

Ond er i bethau newid er gwell, mae'n ffaith hyd heddiw nad yw pobl ddu wedi ennill cydraddoldeb economaidd yn America, ac maent dal yn grŵp sydd o dan anfantais gymdeithasol yn y wlad. Mae llai o Americanwyr du yn graddio o'r brifysgol ac mae lefel uchel iawn o ddiweithdra ymysg poblogaeth ddu America.

Yn ogystal mae straeon wedi bod yn y newyddion yn ddiweddar iawn am gamdriniaeth yr heddlu o bobl ddu yn America.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
caethwasiaeth	pan fydd rhywun yn cipio rhywun arall yn erbyn ei ewyllys a'i orfodi i weithio drosto	slavery